*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod o AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU DDYDD LLUN 16 RHAGFYR 2019 yn SIAMBR CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY, BODLONDEB, LL32 8DU am 10.30 y bore.**

Yn gywir

Colin Everett
Clerc

**AGENDA**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Ddiddordeb**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**
   Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 16 Medi 2019**

5. **Materion yn Codi**

6. **Adroddiad y Cadeirydd**

7. **Alldro Amcanol 2019/20**

8. **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2020/23 a Chyllideb 2020/21**

9. **Cynllun Gwella a Llesiant 2020/21**

10. **Aelodaeth Gweithgor Cynllunio'r Awdurdod i ddatblygu cynllun yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2021/22**

11. **Dyddiadau Cyfarfodydd 2020/21**

12. **Y Trefniadau Llywodraethu a Chyllid ar gyfer yr ATAau yng Nghymru (ar lafar)**

13. **Y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus – Y Diweddaraf**

## 14. Bioamrywiaeth a Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016

## 15. Cofrestr o Ddiddordebau Aelodau a Thrafodion Partïon Cysylltiedig (ar lafar)

## 16. Materion Brys

Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 3 uchod.

## <u>RHAN II</u>

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

Dim

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Amherthnasol** |
| Swyddog Cyswllt | **Alwen Davies (01745 535286)** |
| Pwnc | **Adroddiad y Cadeirydd** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod iddynt rhwng Rhagfyr 2018 a Rhagfyr 2019 yn rhinwedd eu swyddi.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynychu amryw o gyfarfodydd a digwyddiadau yn ystod 2019, a hynny'n fewnol ac yn allanol ar ran yr Awdurdod.

## ARGYMHELLIAD

3 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

## CEFNDIR

4 Tan fis Mehefin 2019, y Cyng. Meirick Lloyd Davies oedd y Cadeirydd, a'r Cyng. Peter Lewis oedd y Dirprwy Gadeirydd. Yn y cyfarfod blynyddol ym mis Mehefin 2019, cafodd y Cyng. Peter Lewis ei ethol i swydd y Cadeirydd, a chafodd y Cyng. Dylan Rees ei ethol i swydd y Dirprwy Gadeirydd.

## SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

5 Nid yw'r adroddiad wedi cael ei ystyried o'r blaen.

## GWYBODAETH

6 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynychu pob cyfarfod yn ymwneud â'r Awdurdod yn ystod y deuddeng mis diwethaf. Maent hefyd wedi cwrdd â'r Prif Swyddog Tân (PST) yn rheolaidd. Hefyd, mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynychu seremonïau llwyddiant y Ffenics ledled rhanbarth Gogledd Cymru.

7 Mae'r Cadeirydd wedi mynychu cyfarfodydd Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, sy'n ceisio darparu arweiniad strategol i hyrwyddo gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon ac effeithiol.

8 Mae'r Cadeirydd a'r PST wedi mynychu cyfarfodydd yng Nghaerdydd gyda'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, a hynny gyda Chadeiryddion a Phrif Swyddogion yr Awdurdodau Tân ac Achub,. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi canolbwyntio'n bennaf ar awydd Llywodraeth Cymru i ddiwygio trefniadau llywodraethu'r ATAau yng Nghymru, ac mae'r Aelodau wedi cael gwybod, ac maent yn parhau i gael gwybod, am y datblygiadau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag aelodau'n mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau yn cael eu had-dalu o'r gyllideb ar gyfer teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Nid oes unrhyw oblygiadau pendol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Nid oes unrhyw oblygiadau pendol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Nid oes unrhyw oblygiadau pendol yn deillio o gymeradwyo'r argymhelliad. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch - Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch (01745 535286)** |
| Pwnc | **Alldro Amcanol 2019/20** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno sefyllfa amcanol y gwariant refeniw a chyfalaf, fel yr oedd pethau ar 30 Tachwedd 2019.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr 2018, fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo cyllideb refeniw yn werth £35.2m. Y sefyllfa alldro a ragwelir o hyd yw y bydd yr Awdurdod yn adennill y costau o gymharu â'r gyllideb hon. Yng nghyfarfod yr ATA ym mis Medi 2019, cymeradwywyd ailgysoni'r gyllideb.

3 Ar 17 Rhagfyr 2018, fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo cyllideb gyfalaf yn werth £3.1m. Adolygwyd hyn, a'i newid i £2.1m.

**ARGYMHELLION**

4 Gofynnir i'r Aelodau nodi sefyllfaoedd alldro drafft y refeniw a'r cyfalaf fel sydd yn yr adroddiad.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Nid yw'r aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CEFNDIR**

6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa alldro drafft y gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.

**GWYBODAETH**

**CYLLIDEB REFENIW**

7 Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa alldro'r refeniw drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Mae'n dangos sefyllfa lle adenillir costau o gymharu â'r gyllideb sy'n £35.237m.

| | Cyllideb 2019/20<br><br>£ | Amcan-estyniad 2019/20<br><br>£ | Amrywiad 2019/20<br><br>£ |
|---|---|---|---|
| Costau Gweithwyr | 27,176 | 26,933 | -243 |
| Safleoedd | 2,243 | 2,533 | 290 |
| Cludiant | 1,019 | 1,037 | 18 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 4,179 | 4,356 | 177 |
| Taliadau i Drydydd Partïon | 417 | 417 | 0 |
| Incwm | -2,852 | -2,862 | -10 |
| Ariannu Cyfalaf a Ffioedd Llog | 3,055 | 2,823 | -232 |
| **Y gofyn am gyllideb** | **35,237** | **35,237** | **0** |

**Costau Gweithwyr**

8 Ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, y gyllideb ar gyfer y gweithwyr yw £27.271m, sef 77% o'r gwariant net. Y rhagolwg alldro drafft yw £0.243m o danwariant, ac mae hyn yn gysylltiedig ag oedi wrth recriwtio prentisiaid diffoddwyr tân. Yn ystod 2019/20, roedd rhaid rhoi'r flaenoriaeth i recriwtio diffoddwyr tân amser cyflawn er mwyn delio â phroblemau capasiti ar yr ochr weithredol. Rhoddir blaenoriaeth i benodi prentisiaid yn 2020/21.

**Safleoedd**

9 £2.243m yw'r gyllideb ar gyfer safleoedd, a rhagwelir £0.290m o orwariant. Mae'r prif feysydd gorwariant yn cynnwys costau cyfleustodau a chasglu sbwriel. Mae profion ar wifrau sefydlog yn cael eu gwneud ymhob gorsaf, ac mae hyn wedi arwain at waith cywiro er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith.

**Cludiant**

10 £1,037k yw'r gwariant amcanol ar gostau'n ymwneud â chludiant, sef gorwariant bach. Mae newid yn y gyfraith wedi arwain at yr angen i gael teiars newydd yn lle rhai sy'n fwy na 10 oed, a hynny ar bob peiriant. Rhagwelir mai £32,600 fydd y gost am wneud y gwaith hwn yn 2019/20. Bydd hyn hefyd yn rhoi pwysau ar y gyllideb yn y blynyddoedd i ddod.

**Cyflenwadau**

11 £4.356m yw'r gwariant amcanol ar gyflenwadau, sef £0.2m o orwariant o gymharu â'r gyllideb. Mae hyn yn cynnwys costau uwch ar gyfer trwyddedau cyfrifiaduron, cynnal a chadw cyfrifiaduron a gwariant mewn perthynas â'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth. Mae'r gwariant uwch ar y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yn cael ei wrthbwyso gan incwm ychwanegol.

**Ariannu Cyfalaf**

12 £3.055m yw'r gyllideb ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae costau ariannu cyfalaf yn cynnwys codi ar y refeniw am ddibrisio a hefyd am gost benthyca. Rhagwelir £0.232m o danwariant, sy'n adlewyrchu'r gostyngiadau yn rhaglen gyfalaf 2018/19. Mae hyn yn rhagweld y bydd y cyfraddau llog yn aros ar y lefel bresennol.

**Incwm**

13 Mae'r incwm a ragwelir yn cyd-fynd yn fras â'r gyllideb, sef £0.5m. Mae'r incwm yn cynnwys hawliad i Awdurdod Tân ac Achub Swydd Derby i dalu am gymorth a roddwyd yn ystod y llifogydd yn Whaley Bridge.

**Arian Grant Refeniw**

14 Dyma ddadansoddiad o'r arian grant yn 2019/20.

| | **£** |
|---|---:|
| Lleihau Llosgi Bwriadol | 142,529 |
| Archwiliadau Diogel ac Iach | 223,300 |
| Y Ffenics | 386,549 |
| Cydnerthedd Cenedlaethol | 141,593 |
| Cyfraniadau Pensiwn y Diffoddwyr Tân | 1,085,673 |
| Firelink | 415,600 |
| **Cyfanswm yr Arian Grant** | **2,395,244** |

**Y RHAGLEN GYFALAF**

15 Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf sy'n werth £3.119m. Mae'r rhaglen gyfalaf wedi cael ei hadolygu a'i newid er mwyn adlewyrchu'n llwyr y prosiectau sydd wedi cael eu cynllunio i gael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn. £2.052m yw'r rhaglen gyfalaf newydd.

16 £1.39m yw'r alldro amcanol ar gyfer y rhaglen gyfalaf.

| | | **2019/20** | **2019/20** | **2019/20** |
|---|---|---:|---:|---:|
| **Adran** | **Disgrifiad** | **Cyllideb** | **Alldro Amcanol** | **Gofynnwyd am gael cario drosodd** |
| Fflyd | Cerbydau ac offer i gymryd lle rhai eraill | £180,000 | £180,000 | £0 |
| Gweithred-iadau/ Fflyd | Offer | £41,000 | £0 | £0 |
| Cyfleusterau | Uwchraddio adeiladau | £878,000 | £603,950 | £278,000 |
| TGCh/ Canolfan Reoli | Uwchraddio systemau, a'r gwaith cysylltiedig | £953,649 | £614,385 | £338,130 |
| | **Cyfanswm y Cyfalaf** | **£2,052,649** | **£1,398,335** | **£616,130** |

17 Ers adolygu'r rhaglen, mae prosiectau wedi llithro mewn perthynas â Chyfleusterau oherwydd bod rhaid aildendro gwaith, a hefyd mewn perthynas â TGCh/ Y Ganolfan Reoli a'r rheswm pennaf yw oedi yn y prosiect ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru i symud yr ail ganolfan reoli.

18 Rhagwelir y bydd cyllid yn cael ei gario drosodd i 2020/21, er mwyn delio â'r llithriant hwn.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae cyllid i'r Gwasanaeth yn fuddiol i gymunedau Gogledd Cymru, ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddia yn digwydd mewn seilwaith i alluogi'r Gwasanaeth ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod bob blwyddyn, a hynny'n unol â'r gwasanaethau arfaethedig, sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol. |
| Cyfreithiol | Rhaid i'r Awdurdod, dan y gyfraith, lunio'r Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r safonau a ragnodwyd. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n agos er mwyn sicrhau bod unrhyw achos o wyro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael ei ganfod yn iawn ac yn cael ei adrodd i'r Aelodau. |

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Yr Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch (01745 535286)** |
| Pwnc | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2020/23 a Chyllideb 2020/21** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2020/23 i'r Aelodau, ynghyd â'r cyllidebau refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer 2020/21.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) osod cyllideb fantoledig ym mis Rhagfyr bob blwyddyn. Mae'r adroddiad yn nodi'r gyllideb refeniw a chyfalaf ddrafft ar gyfer 2020/21, ynghyd â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

3 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r rhagdybiaethau allweddol, y risgiau a'r ansicrwydd a ganfuwyd wrth gynllunio'r gyllideb. Mae'r adroddiad yn cadarnhau faint o arian sydd ei angen gan bob awdurdod lleol cyfansoddol.

**ARGYMHELLION**

4 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) cymeradwyo'r cyllidebau cyfalaf a refeniw ar gyfer 2020/21, ar sail £0.7m o gynnydd yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol;
(ii) nodi'r risgiau allweddol a'r ansicrwydd a ganfuwyd wrth gynllunio'r gyllideb; a
(iii) cefnogi'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL**

5 Yn ei gyfarfod ar 21 Hydref 2019, bu'r Panel Gweithredol yn ystyried ac yn nodi'r rhagdybiaethau cynllunio.

**CEFNDIR**

6 Mae angen i sefydliad effeithiol gael nifer o gynlluniau corfforol i sicrhau bod ei amcanion strategol cyffredinol yn cael eu cyflawni. Mae'r datganiad llesiant yn cadarnhau amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod, sef:

1. Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i fod yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd; a
2. Hwyluso gwasanaethau tân achub sydd o ansawdd uchel, sy'n ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg.

7 Mae'r gwaith o ddatblygu a chymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cefnogi'r amcanion hyn, ac mae'n sicrhau bod dull strategol yn cael ei ddilyn wrth ddelio â gwaith cynllunio ariannol a chyllido.

8 Roedd yr Awdurdod yn cydnabod y mesurau cyni oedd eu hangen yn y sector cyhoeddus, a rhwng 2010 a 2017 canfu gwerth £3m o arbedion (sef 10% o'i gyllideb) ac fe wnaeth 9% o ostyngiad yn y gweithlu, a hynny ar draws pob grŵp o staff.

9 Wrth ystyried y cynlluniau ariannol ar gyfer 2017/18, sylweddolodd yr Aelodau nad oedd yn gynaliadwy ceisio rhewi cyllideb yr Awdurdod. Felly, fe wnaeth yr Aelodau fabwysiadu strategaeth ariannol am y cyfnod 2017/20 i geisio cael cynaliadwyedd ariannol drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, cyfraniadau ariannol uwch ac ystyried lleihau Gwasanaethau.

10 Mae'r Awdurdod yn cael ei gefnogi gan Weithgor Cynllunio sy'n cael ei arwain gan yr aelodau. Cyfarfu'r gweithgor dair gwaith rhwng Ionawr a Mawrth 2019 i ddatblygu argymhellion ar gyfer Cynllun Gwella a Llesiant blynyddol 2020/21 a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Roedd y Gweithgor yn argymell bod yr Awdurdod yn cadw'r modelau cyflwyno gwasanaethau presennol a bod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar ddatblygu a mabwysiadu Strategaeth Amgylcheddol i'w chyflawni o fis Ebrill 2020 ymlaen. Fe wnaeth yr Awdurdod dderbyn yr argymhelliad hwn, a dechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Medi 2019.

**CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF DDRAFFT 2020/21**

11 Mae gwaith cynllunio manwl wedi cael ei wneud, ac mae'r prif ragdybiaethau cynllunio, y risgiau a'r ansicrwydd yn cael eu hamlinellu yn atodiad 1.

12 Mae'r broses gynllunio wedi cadarnhau mai £39.9m yw'r gofyniad gwariant net ar gyfer 2020/21, sef 2% o gynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae crynodeb fesul penawdau'r gyllideb ar gael yn atodiad 2.

13 Mae cynnig y gyllideb ar gyfer 2020/21 yn gofyn am £0.7m o gynnydd yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Mae Atodiad 4 yn darparu crynodeb fesul awdurdod lleol.

14 Costau gweithwyr yw 72% o'r holl wariant, ac mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2020/21 yn £27.7m, sy'n rhagdybio 2% o ddyfarniad cyflog i'r holl staff. Gan nad yw'r dyfarniadau cyflog cenedlaethol wedi cael eu cwblhau'n derfynol eto, mae hyn yn risg cynllunio sylweddol o hyd. Mae'r gwaith yn parhau er mwyn sicrhau bod costau gweithwyr yn cael eu rheoli'n ofalus, gan gynnwys gweithredu gwelliannau ar gyfer rheoli cyflogau sy'n amrywio.

15 Mae cyfraniadau'r cyflogwr i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi cael ei ailasesu ar ôl derbyn y prisiad actiwaraidd teirblynyddol. Mae hyn wedi cadarnhau bod £0.3m o gynnydd blynyddol.

16 Mae cyfraniadau pensiwn y cyflogwr ar gyfer diffoddwyr tân wedi cynyddu yn 2019/20, a hynny'n dilyn ailbrisiad gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth cychwynnol a disgwylild penderfyniad ynglŷn â'r sefyllfa hirdymor yn yr Adolygiad Gwariant ym mis Medi 2019. Ni chafwyd cyhoeddiad eto ynghylch y sefyllfa yn 2020/21 ac ymlaen, ac mae hyn yn golygu risg o £1.3m. Ar hyn o bryd, y rhagdybiaeth o ran y gyllideb yw y bydd cyllid yn dod i law.

17 Nid oes cynnydd chwyddiannol wedi cael ei roi ers sawl blwyddyn i'r cyllidebau nad ydynt yn gyflogau. Fel rhan o'r broses o osod y gyllideb, ystyriwyd y risgiau penodol sydd ymhob pennawd yn y gyllideb, ac arweinodd hyn at £0.4m i £8.2m o gynnydd arfaethedig. Dyma 5% o gynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall, ac mae hyn yn adlewyrchu pwysau arwyddocaol ac amhosibl eu hosgoi mewn perthynas â chostau cyfleustodau, gwaith cynnal a chadw wedi cronni, costau tanwydd a chostau TGCh, gan gynnwys trwyddedau meddalwedd a chontractau cynnal a chadw.

18 Mae costau ariannu cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a thaliadau refeniw am ddefnyddio asedau cyfalaf. Rhagwelir cynnydd yng nghyfraddau sylfaenol Banc Lloegr yn ystod 2020/21 ac mae hyn wedi'i gynnwys yn y gyllideb. Mae'r gyllideb ariannu cyfalaf ar gyfer 2020/21 wedi cael ei gostwng, sy'n adlewyrchu'r camau a gymeradwyd dros y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf i leihau'r rhaglen gyfalaf.

19 Mae cynllun cyfalaf drafft wedi cael ei amlinellu yn atodiad 3, sy'n cadarnhau £4.1m o ofyniad cyfalaf ar gyfer 2020/21. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad hanfodol mewn peiriannau tân a chyfarpar amddiffyn personol newydd. Bydd y gwariant cyfalaf hwn yn cael dylanwad wedyn ar y taliadau ariannu cyfalaf mewn blwyddyn ariannol diweddarach, fel y nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

**STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2020/23**

20 Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gael yn atodiad 2, ac mae'n asesu'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal y lefel gyfredol o wasanaethau. Gwariant yn gysylltiedig â gweithwyr yw'r brif sbardun costau, ac mae'r

strategaeth ariannol tymor canolig yn seiliedig ar 2% o ddyfarniad cyflog fel rhagdybiaeth gynllunio.

21 Mae'r prif risgiau ac ansicrwydd ar gyfer y Strategaeth wedi cael eu hamlinellu yn atodiad 1. Y rhagdybiaeth gynllunio bresennol ar gyfer y Strategaeth yw bod yr arian grant ychwanegol ar gyfer prosiect Airwave, dyfarniadau cyflog yn fwy na 2% a'r costau pensiwn ychwanegol sy'n deillio o brisiad Adran Actiwari'r Llywodraeth yn cael ei ariannu'n ganolog.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r gyllideb yn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion llesiant tymor hir, sef:<br>Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac fod yn ddiogel os yw tanau o'r fath yn digwydd;<br>Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg. |
| Cyllideb | £0.7m yw'r amcangyfrif presennol o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb bresennol a'r gofyniad ar gyfer 2020/2 |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Tân ac Achub i osod cyllideb refeniw fantoledig. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawlia Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau ac Ansicrwydd | Aseswyd risgiau'r gyllideb ddraft, a nodwyd y risgiau allweddol a ganlyn:<br>• Mae'r gyllideb yn seiliedig ar ragdybiaeth mai 2% fydd y dyfarniadau cyflog. Ni ddaethpwyd i gytundebau cenedlaethol eto;<br>• Y rhagdybiaeth gynllunio yw y bydd parhad yn y cymorth gan Lywodraeth Cymru tuag ar y cynnydd ym mhensiynau diffoddwyr tân. Os na chefnogir hyn, bydd £1.3m o risg;<br>• Y rhagdybiaeth gynllunio yw y bydd £0.4m o gyll yn parhau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhwydwaith cenedlaethol y gwasanaethau brys (grant Airwave);<br>• Mae'r Awdurdod yn bwriadu datblygu Strategaeth Amgylcheddol yn ystod 2020/21. Nid ydym wedi gwneud asesiad o'r costau eto; ac<br>• Mae'r ansicrwydd mewn perthynas â gadael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau, ac nid oes costa ychwanegol wedi cael eu cynnwys yng nghyllide 2020/21. |

**Atodiad 1 – Crynodeb o'r rhagdybiaethau cynllunio a'r risgiau**

| Pennawd | Y rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth osod y gyllideb | Risgiau |
|---|---|---|
| Costau Gweithwyr | • Mae'r cyllidebau staffio wedi cael eu ffurfio ar sail modelau cyflawni cyfredol y gwasanaeth.<br>• Y rhagdybiaeth weithio bresennol yw mai 2% fydd y chwyddiant cyflogau.<br>• Ni ragwelir cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol.<br>• Bydd y £0.3m o gynnydd mewn perthynas â chyfraniadau'r cyflogwr i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei reoli drwy arbedion effeithlonrwydd sy'n mynd ymlaen.<br>• Cymerir y bydd y cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr i gynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn parhau i gael ei ariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru. | • Nid yw Cyd-gyngor yr NJC wedi dod i gytundeb eto am y dyfarniad cyflog i'r diffoddwyr tân ar gyfer y cyfnod 2017/18.<br>• Nid yw'r Cyd-bwyllgor Negodi ar gyfer Awdurdodau Lleol wedi cyhoeddi cynigion eto ar gyfer dyfarniad cyflog 2020/21.<br>• Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn rhagdybio lefelau cyffredin o weithgarwch. Teimlir pwysau ar y gyllideb os bydd llif o ddigwyddiadau. Y rhagdybiaeth weithio yw defnyddio'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn y lle cyntaf.<br>• Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eto a fydd yn parhau i roi grant i gefnogi'r cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr i gynllun pensiwn y diffoddwyr tân. Amcangyfrifir mai £1.3m fydd y costau yn 2020/21.<br>• Yn Rhagfyr 2018, fe wnaeth y llywodraeth golli ei hapêl yn erbyn yr her gyfreithiol am y trefniadau pensiwn trosiannol i ddiffoddwyr tân. Bydd y mater yn mynd i Dribiwnlys Cyflogaeth i gywiro pethau. Nid yw'r canlyniad ariannol yn hysbys, ac nid oes darpariaeth wedi cael ei gwneud.<br>• Yn dilyn yr ymchwiliad cyhoeddus i drychineb Grenfell, mae'n bosibl y bydd newidiadau i reoliadau adeiladu a'r cyfrifoldebau cysylltiol. Ni wyddom eto sut gallai'r rhain effeithio ar y sector tân ac achub, ac nid oes darpariaeth wedi cael ei gwneud. |

| | | |
|---|---|---|
| Costau nad ydynt yn gyflogau | • Mae cyllidebau ar gyfer costau nad ydynt yn gyflogau wedi aros heb newid ers nifer o flynyddoedd, a lleddfwyd pwysau costau drwy wneud arbedion. Yr asesiad cynllunio cychwynnol ar gyfer y strategaeth hon oedd parhau, gan mwyaf, gyda chynnydd bach. Oherwydd parhad mewn pwysau costau na ellir eu hosgoi, sy'n cynnwys cynnydd mewn costau tanwydd, gwaith cynnal a chadw wedi cronni, ardrethi annomestig cenedlaethol, yswriant a chyfleustodau, cynigir 6.5% o gynnydd yn y gyllideb. Bydd pwysau costau gweddilliol yn parhau i gael eu talu drwy reoli costau ar draws y pennawd hwn. | • Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu'r costau nad ydynt yn gyflogau, a'i fod yn ymdrechu i reoli pwysau costau o fewn y gyllideb a gynlluniwyd, mae hyn yn faes risg o hyd oherwydd pwysau parhaus ym maes technoleg gwybodaeth. Yn arbennig, mae oedi wedi bod yn y gwaith cenedlaethol o gaffael Rhwydwaith ar gyfer Gwasanaethau Brys ac mae'r contract presennol wedi cael ei ymestyn. Rhagdybir y bydd y £0.4m o gymorth refeniw cyfredol gan Lywodraeth Cymru yn parhau, er na chafwyd cadarnhad o hyn eto.<br>• Mae gadael yr Undeb Ewropeaidd yn dal yn faes ansicr ar draws yr economi. Nid oes darpariaeth wedi cael ei gwneud yn y gyllideb ar gyfer cynnydd mewn costau oherwydd chwyddiant neu risgiau cyfraddau cyfnewid. Yn y tymor byr, byddai'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn cael ei defnyddio ond ni fyddai hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir.<br>• Gallai canlyniad yr ymgynghoriad ar y gwaith o ddabtlygu Strategaeth Amgylcheddol arwain at wariant ychwanegol. Nid oes costau wedi cael eu cynnwys hyd yma yng ngyllideb sylfaenol 2020/21. |
| Ariannu Cyfalaf | • Roedd yr asesiad cynllunio gwreiddiol yn cynnwys rhaglen gyfalaf gwerth £3.1m ar gyfer 2019/20. Mae'r rhaglen gyfalaf hon wedi cael ei diwygio, a'r rhagolwg cyfredol yw £2.8m o ofyniad ariannu cyfalaf, gyda'r gostyngiad yn cael ei ddefnyddio i ariannu pwysau sy'n deillio o gostau nad ydynt yn gyflogau. | • Ni wyddom beth yw'r cynnydd posibl mewn cyfraddau llog, a gallai hynny fod yn uwch na'r rhagdybiaethau cynllunio. |
| Incwm | • Mae'r cyllidebau incwm wedi cael eu hadolygu, ac wedi eu gosod yn unol â'r blynyddoedd blaenorol. | • Ni chanfuwyd unrhyw risgiau penodol. |

**Atodiad 2 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2020/2023 - Refeniw**

| | **Cyllideb 2019/20** £ | **Amcanestyniad 2019/20** £ | **Cyllideb Ddrafft 2020/21** £ | **Rhagolwg 2021/22** £ | **Rhagolwg 2022/23** £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif Swyddogion | 691,854 | 676,313 | 656,127 | 669,250 | 682,635 |
| Ymateb, Amddiffyn ac Atal | 22,095,245 | 21,811,786 | 22,470,804 | 22,920,220 | 23,378,624 |
| Corfforaethol | 2,777,677 | 2,786,067 | 2,761,274 | 2,816,500 | 2,872,830 |
| Costau eraill yn gysylltiedig â gweithwyr | 429,659 | 469,659 | 445,390 | 454,298 | 463,384 |
| Costau pensiwn (ac eithrio cyfraniadau'r gweithwyr) | 1,181,700 | 1,188,600 | 1,322,500 | 1,366,710 | 1,412,164 |
| **Cyfanswm Costau Gweithwyr** | **27,176,135** | **26,932,425** | **27,656,095** | **28,226,977** | **28,809,636** |
| Safleoedd | 2,242,696 | 2,532,696 | 2,328,476 | 2,375,045 | 2,422,546 |
| Cludiant | 1,019,556 | 1,037,556 | 1,040,608 | 1,092,638 | 1,147,270 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 4,178,829 | 4,356,829 | 4,450,375 | 4,539,383 | 4,630,171 |
| Taliadau i Drydydd Partïon | 416,740 | 416,740 | 425,095 | 433,597 | 442,268 |
| **Cyfanswm Gwariant sydd heb fod yn gysylltiedig â Chyflogau** | **7,857,821** | **8,343,821** | **8,244,553** | **8,440,663** | **8,642,255** |
| Ffioedd a Thaliadau/Incwm Amrywiol | -456,788 | -467,434 | -399,570 | -399,570 | -399,570 |
| Incwm grantiau | -2,395,244 | -2,395,244 | -2,395,244 | -2,395,244 | -2,395,244 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **-2,852,032** | **-2,862,678** | **-2,794,814** | **-2,794,814** | **-2,794,814** |
| Ariannu Cyfalaf a Thaliadau Llog | **3,055,188** | **2,823,544** | **2,836,020** | **3,201,411** | **3,424,801** |
| | | | | | |
| **Gofyniad y gyllideb** | **35,237,112** | **35,237,112** | **35,941,854** | **37,074,237** | **38,081,879** |
| **Cynnydd yn y gyllideb** | | | 2% | 3% | 3% |
| | | | | | |

**Atodiad 3 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2020/2023 – Cyfalaf**

| Adran | Disgrifiad | 2019/20<br>Cyllideb<br>£ | 2019/20<br>Amcan-gyfrif o'r Alldro<br>£ | 2020/21<br>Cyllideb ac arian cario drosodd arfaeth-edig<br>£ | 2021/22<br>Rhagolwg<br>£ | 2022/23<br>Rhagolwg<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Fflyd | Cerbydau a pheiriannau yn lle hen rai | 191,000 | 180,000 | 1,306,000 | 1,255,000 | 1,355,000 |
| Gweithred-iadau | Cyfarpar Amddiffyn Personol a chyfarpar gweithredol | 30,000 | 0 | 944,682 | 30,000 | 30,000 |
| Cyfleuster-au | Uwchraddio adeiladau | 878,000 | 703,950 | 1,194,000 | 2,000,000 | 850,000 |
| TGCh/ Ystafell Reoli | Uwchraddio systemau a gwaith sy'n gysylltiedig â hynny | 953,649 | 614,385 | 644,130 | 400,000 | 750,000 |
| | **Dyraniad Cyfalaf Arfaethedig** | **2,052,649** | **1,498,335** | **4,088,812** | **3,685,000** | **2,985,000** |

**Atodiad 4 – Cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol Cyfansoddol 2020/21**

| Awdurdod | Cyfrania 2019/2020 £ | Poblogaeth | Poblogaeth % | 2020/2021 Amcanol* £ | Cynnydd yn y cyfraniadau £ | Cynnydd % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 5,875,914 | 117,223 | 17% | 5,988,521 | 112,607 | 1.9% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3,522,798 | 70,169 | 10% | 3,584,694 | 61,896 | 1.7% |
| Cyngor Gwynedd | 6,226,618 | 124,426 | 18% | 6,356,498 | 129,880 | 2.0% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 4,805,681 | 95,931 | 14% | 4,900,786 | 95,105 | 1.9% |
| Cyngor Sir y Fflint | 7,790,476 | 155,442 | 22% | 7,940,999 | 150,523 | 1.9% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 7,015,625 | 140,358 | 20% | 7,170,409 | 154,784 | 2.2% |
| **Cyfanswm** | **35,237,112** | **703,548** | **100%** | **35,941,854** | **704,793** | **2%** |

* Mae cyfraniadau rhagamcanol yr awdurdodau lleol 2020/2021 yn seiliedig ar gyllideb ddrafft, a rhaid eu hystyried ar y cyd â'r risg a'r ansicrwydd a amlinellir yn yr adroddiad.

Tudalen wag - yn fwriadol

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Cynllun Gwella a Llesiant 2020/21** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Rhoi gwybod i'r Aelodau am hynt ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod, a chynnig diwygio'r amcanion gwella a llesiant fel rhan o'r broses o greu'r Cynllun Gwella a Llesiant nesaf.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) gyhoeddi amcanion gwella a llesiant, a rhaid iddo fod wedi cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y broses o ddatblygu'r amcanion hynny.

3. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cip ar hynt ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod sy'n mynd yn ei flaen, ac mae'n cynnig bod yr Awdurdod, yn dilyn adborth a gafwyd gan Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn manteisio ar y cyfle i ddiwygio a helaethu ei amcanion hirdymor ar gyfer 2020/21 ac ymlaen.

**ARGYMHELLION**

4. Bod yr Aelodau'n:

   i) Nodi hynt ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod sy'n mynd yn ei flaen, gan geisio cael barn am y gwaith o ddatblygu a mabwysiadu strategaeth amgylcheddol; a
   ii) cymeradwyo'r cynnig fod Swyddogion yn llunio cyfres helaethach o amcanion gwella a llesiant i'w hystyried, yn y lle cyntaf, gan y Panel Gweithredol ac yna gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2020.

## SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

5. Yn ei gyfarfod ar 13 Mai 2019, bu'r Panel Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaed gan y Gweithgor Cynllunio wrth ddatblygu amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2020/21. Yn y cyfarfod hwnnw, penderfynodd y panel argymell i'r Awdurdod llawn y dylai ymgynghori ynghylch datblygu strategaeth amgylcheddol i'w mabwysiadu o Ebrill 2020 ymlaen. Yn ei gyfarfod ar 21 Hydref 2019, penderfynodd y Panel Gweithredol y byddai hefyd yn argymell adolygu'r modd y mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## CEFNDIR

6. Rhaid i'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ynghyd ag amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. At ddibenion prosesau cynllunio'r Awdurdod, mae'r rhain yn cael eu trin fel un peth yn yr ystyr fod amcanion gwella byrdymor yn gallu bod hefyd yn gamau tuag at gyfalawni amcanion llesiant hirdymor.

7. Dan y gyfraith, rhaid i'r Awdurdod ymdrechu i wella ei wasanaethau yn y tymor byr ac ystyried llesiant cenedlaethau o bobl yn yr ardal yn y dyfodol. Rhaid i'r amcanion llesiant y mae'n eu mabwysiadu gyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru, a rhaid i'r Awdurdod allu dangos ei fod yn cymryd pob cam rhesymol (wrth gyflawni ei swyddogaethau) i gyflawni ei amcanion.

8. Dyma amcanion hirdymor presennol yr Awdurdod:

   A. cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd; a
   B. hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg.

9. Rhaid i'r Awdurdod gynnwys pobl eraill yn y broses o ddatblygu a gosod ei amcanion, a rhaid iddo adrodd ynghylch y cynnydd wrth eu cyflawni.

10. Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd o'r Gweithgor Cynllunio yn 2019, bu'r Aelodau'n ystyried amcanion yr Awdurdod, ac yna penderfynodd yr Awdurdod ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch y gwaith o ddatblygu a mabwysiadu strategaeth amgylcheddol.

11. Fel rhan o drafodaethau'r Gweithgor Cynllunio, bu'r Aelodau'n ystyried effaith newid yn yr hinsawdd a thywydd eithafol ar y Gwasanaeth, ynghyd â'r budd o ddatblygu strategaeth amgylcheddol, yn cynnwys, er enghraifft:

- cynllunio adnoddau i ddelio ag eithafion gweithgareddau'n ymwneud â'r tywydd, megis llifogydd eang a mwy o danau ar laswelltir;
- addysgu'r cyhoedd a chydweithio i leihau effaith digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd ar gymunedau lleol;
- monitro a rheoli'r modd mae'r Gwasanaeth ei hun yn defnyddio ynni a thanwydd ac yn rheoli gwastraff;
- diwygio polisïau caffael a threfniadau cyfrifyddu;
- gwneud cyfraniadau cadarnhaol tuag at fioamrywiaeth.

12. Mae sawl blwyddyn ers iddynt fabwysiadu'r datganiadau amgylcheddol a pholisi ynni, felly roedd yr Aelodau'n cydnabod y byddai'n briodol rhoi bywyd newydd yn y gwaith hwn drwy ddatblygu strategaeth amgylcheddol newydd ar gyfer yr Awdurdod i fynd i'r afael yn fwy amlwg â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn ogystal â'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

**GWYBODAETH**

**Ymgynghoriad Cyhoeddus 2019**

13. Mae'r ymgynghoriad yn parhau i geisio barn gan y cyhoedd a rhanddeiliaid ynglŷn â'r gwaith o ddatblygu a mabwysiadu strategaeth amgylcheddol. Mae'n cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau ymgysylltu, sy'n cynnwys:

- dogfen wybodaeth esboniadol; a
- holiadur ar-lein, gyda'r dewis o gyflwyno ymatebion ysgrifenedig petai hynny'n well gan bobl.

14. Mae'r dulliau cyfathrebu wedi cynnwys:

- datganiad i'r wasg, gyda dolen i'r ddogfen ymgynghori a gwybodaeth ynglŷn â chymryd rhan;
- llythyrau at randdeiliaid, gyda chopi o'r ddogfen ymgynghori a gwybodaeth ynglŷn â chymryd rhan;
- negeseuon ategol ar y cyfryngau cymdeithasol i gyfeirio pobl at yr ymgynghoriad, gan gynnal yr ymwybyddiaeth drwy fideo byr a thynnu sylw at y dyddiad cau; ac
- erthyglau a nodiadau atgoffa mewn cyhoeddiadau i'r staff.

15. Mae'r swyddogion wedi cwrdd â chynrychioliwyr o nifer o gynghorau sir a chynghorau tref a chymuned i esbonio beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad ac i'w hannog i ymateb i'r hyn y cynigir fydd mewn strategaeth amgylcheddol ar gyfer yr Awdurdod.

16. Roedd holiadur ar-lein yn cyflwyno tair agwedd ar y gwaith o ddatblygu strategaeth amgylcheddol:

- cyfrifoldeb corfforaethol sy'n cynnwys, er enghraifft, effaith gweithrediadau'r Gwasanaeth ei hun, ei ddefnydd o danwydd, gwres a goleuadau, ei bolisïau caffael a'i weithdrefnau rheoli gwastraff;
- gweithgareddau ataliol a'r heriau sy'n gysylltiedig â chael chydbwysedd rhwng effaith amgylcheddol y milltiroedd sy'n cael eu teithio a chyfrifoldebau'r Gwasanaeth i atal tanau; ac
- ymateb brys, a'r heriau sy'n gysylltiedig â delio â newid yn yr hinsawdd sy'n arwain at e.e. cynnydd mewn llifogydd yn ystod gaeafau mwy gwlyb ac at gynnydd mewn tanau awyr agored yn ystod hafau mwy sych a phoeth.

17. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn dal i ddod i law ac i gael eu cydgrynhoi, a bydant yn cael eu hystyried wrth gwblhau Cynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2020/21.

18. Caiff adroddiad ar yr ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad ei gyflwyno er mwyn i'r Panel Gweithredol ei ystyried yn ei gyfarfod nesaf ym mis Chwefror 2020.

**Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2020/21**

19. Roedd adborth a gafwyd yn ddiweddar gan Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn awgrymu bod angen i'r Awdurdod gynyddu nifer yr amcanion y mae'n bwrw ymlaen â nhw. Mae hyn yn seiliedig ar ddehongli Adran 3(2)(a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod rhaid i gorff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion "…*sy'n cael eu cynllunio i sicrhau ei fod yn cyfrannu i'r eithaf at gyrraedd pob un o'r nodau llesiant*".

20. Bydd yr aelodau'n cofio mai pwrpas nodau llesiant Cymru yw sicrhau: Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

21. Felly, cynigir bod y swyddogion yn llunio cyfres helaethach o amcanion gwella a llesiant i gael eu hystyried gan y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod nesaf yn Chwefror 2020. Bydd y gyfres helaethach yn rhoi ystyriaeth i adborth y Comisiynydd, a bydd hefyd yn ystyried sut i wella adroddiadau am y nodau llesiant yn y dyfodol, ac o bosibl am y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub. Yna, gellir ymgorffori'r amcanion diwygiedig yn y Cynllun Gwella a Llesiant drafft terfynol ar gyfer 2020/2, sydd i gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2020.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Goblygiad uniongyrchol o gytuno ar amcanion hirdymor yr Awdurdod a'r camau byrdymor cysylltiedig tuag at eu cyflawni. |
| Cyllideb | Mae perthynas rhwng cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer 2020/21 a'i adnoddau ariannol. Bydd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020/21 yn cael ei chymeradwyo erbyn Rhagfyr 2019, ac yn cael ei chadarnhau erbyn canol mis Chwefro 2020. |
| Cyfreithiol | Mae'n gymorth i gydymffurfio â deddfwriaeth yn ymwneud â chynllunio gwelliannau a llesiant. |
| Staffio | Dim effaith hysbys ar lefelau staffio |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd effeithiau camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael eu hasesu ar adeg priodol yn eu datblygiad. |
| Risgiau | Mae'n lleihau'r risg o beidio â chydymffurfio â'r gyfraith ac o fethu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |

Tudalen wag - yn fwriadol

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Polisi a Chynlluniau Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol (01745 535286)** |
| Pwnc | **Aelodaeth Gweithgor Cynllunio'r Awdurdod i ddatblygu cynllun yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2021/22** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cytuno ar aelodaeth Gweithgor Cynllunio'r Awdurdod ar gyfer 2020.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Bydd angen i brosesau cynllunio'r Awdurdod ddechrau yn gynnar yn 2020 er mwyn cael digon o amser i'r Awdurdod lunio, ymgynghori a chymeradwyo ei gynllun 2021/22 i'w gyhoeddi yn gynnar yn 2021.

3 Mae'r papur hwn yn ceisio cael penderfyniad yr Awdurdod am aelodaeth gweithgor i wneud y gwaith manwl o lunio'r cynllun i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn.

## ARGYMHELLION

4 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) gytuno bod aelodaeth lawn y Panel Gweithredol yn dod yn aelodaeth o'r Gweithgor Cynllunio;
(ii) ystyried p'un ai i barhau i gynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar y Gweithgor Cynllunio; a
(iii) nodi dyddiadau cyfarfodydd y Gweithgor Cynllunio, sydd i'w cynnal yn y Pencadlys, fel a ganlyn:
20 Ionawr, 2pm
2 Mawrth, 2pm
30 Mawrth, 10am.

## SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

5 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

## CEFNDIR

6 Mae Mesur Llywodraeth Leol 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tân ac achub yng Nghymru osod amcanion iddynt eu hunain, a chynnwys rhanddeiliaid yn y broses.

7 Mae Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau hynny gyhoeddi eu hamcanion gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol yn ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr cyn y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

8 Hefyd, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau hynny esbonio'n gyhoeddus pa gamau maen nhw'n bwriadu eu cymryd yn y flwyddyn ariannol i ddod er mwyn cyflawni eu hamcanion llesiant tymor hir.

9 Ers 2003, mae'r Awdurdod wedi enwebu aelodau i sefyll ar weithgorau i ddatblygu cynlluniau yn unol â'r gofynion cynllunio sy'n bodoli ar y pryd, ac mae hyn wedi dod yn rhan annatod o broses yr Awdurdod ar gyfer gosod y gyllideb a chynllunio.

## GWYBODAETH

10 Mae'r Gweithgor Cynllunio yn gwneud gwaith manwl yn gysylltiedig â phroses gosod y gyllideb a chynllunio'r Awdurdod trwy gyfres o gyfarfodydd. Nid yw'r Gweithgor yn bwyllgor sydd â chyfansoddiad ffurfiol, ac felly nid yw ei gyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd.

11 Mae'r Gweithgor Cynllunio yn cyflwyno ei sylwadau i'r Panel Gweithredol sydd wedyn yn gwneud argymhellion ar gyfer amcanion gwella/lleihau risg/lles i'r ATA llawn.

12 Yn y gorffennol, bu gwahanol ffurfiau i aelodaeth y gweithgor. Oherwydd pwysigrwydd proses y gyllideb a chynllunio efallai byddai Aelodau yn ystyried mai doeth o beth fyddai gwahodd, unwaith eto, bob aelod o'r Panel Gweithredol i fod yn aelodau o'r Gweithgor Cynllunio. Ym mis Rhagfyr, bu i'r Aelodau benderfynu cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio fel aelodau o'r Cynllun Gweithgor ar gyfer 2019.

13 Y bwriad yw i'r Gweithgor gyfarfod yn rheolaidd dros y misoedd nesaf i ddatblygu'r amcanion drafft ar gyfer 2021/22, er mwyn gallu ymgynghori yn gyhoeddus yn ystod 2020 a chyhoeddi Cynllun Gwella a Lles 2021/22 yr Awdurdod ym mis Mawrth 2021.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Goblygiad uniongyrchol i'r gwaith o gytuno ar y camau tuag at amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Goblygiad uniongyrchol i'r gwaith o ddatblygu cyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2020/21 a'r tu hwnt. |
| Cyfreithiol | Cefnogi cydymffurfiaeth yr Awdurdod â'r ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer cynllunio gwelliannau a gweithio tuag at gyflawni'r amcanion llesiant. |
| Staffio | Dim effaith hysbys ar lefelau staffio yn ystod y cam o'i lunio, ond effaith bosibl (sy'n anhysbys ar hyn o bryd) yn deillio o'r cynllun terfynol a fabwysiedir. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Asesu'r amrywiaeth o agweddau yn ystod y gwaith o lunio a chynhyrchu'r cynllun. |
| Risgiau | Lleihau'r risgiau o ganlyniad i beidio â chydymffurfio, ac o fethu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |

Tudalen wag - yn fwriadol

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Colin Everett (01745 535286)** |
| Pwnc | **Dyddiadau Cyfarfodydd 2020/21** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

**1** Hysbysu aelodau o ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2020/21.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Hysbysu aelodau o ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2020/21 fel a ddangosir ym mharagraffau 7-9 o'r adroddiad hwn.

## ARGYMHELLIAD

3 Argymhellir bod aelodau'n nodi dyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

## CEFNDIR

4 Cytunwyd ar ddyddiadau ar gyfer yr holl gyfarfodydd hyd Mehefin 2020 ym mis Mehefin 2019. Bydd hysbysiad ymlaen llaw o'r dyddiadau o gymorth i aelodau a swyddogion gyda'u hamserlenni.

## GWYBODAETH

### Yr Awdurdod Tân ac Achub

5 Mae Rheol Sefydlog 4(2) o Reolau Sefydlog yr Awdurdod yn nodi y dylid cynnal cyfarfodydd o'r Awdurdod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, gyda'r cyfarfod blynyddol i'w gynnal cyn ddiwedd Mehefin fan bellaf. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal ar y trydydd dydd Llun yn y mis oni bai fod y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Clerc a'r Prif Swyddog Tân, yn pennu'n wahanol.

6 Dyma'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod:

Dydd Llun 16 Mawrth 2020
Dydd Llun 15 Mehefin 2020
Dydd Llun 21 Medi 2020
Dydd Llun 21 Rhagfyr 2020
Dydd Llun 15 Mawrth 2021

**Y Panel Gweithredol**

7 Dyma ddyddiadau cyfarfodydd y Panel Gweithredol, sydd i'w cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy am 10.00 y bore:

Dydd Llun 10 Chwefror 2020
Dydd Llun 18 Mai 2020
Dydd Llun 27 Gorffennaf 2020, **2 o'r gloch y pnawn**
Dydd Llun 15 Chwefror 2021

**Pwyllgor Archwilio**

8 Dyma ddyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, sydd i'w cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy am 10.00 y bore:

Dydd Llun 27 Ionawr 2020
Dydd Llun 27 Gorffennaf 2020
Dydd Llun 21 Medi 2020, **9.30am, Bodlondeb**
Dydd Llun 25 Ionawr 2021

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ddim yn berthnasol |
| Cyllideb | Ddim yn berthnasol |
| Cyfreithiol | Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau Sefydlog ATAGC a'r cylch gorchwyl perthnasol.<br>Mae disgwyl i aelodau ddilyn y cod ymddygiad bob amser |
| Staffio | Ddim yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg/<br>Y GYMRAEG | Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod Tân yn cydymffurfio â chydraddoldeb |
| Risgiau | Ddim yn berthnasol |

*This document is available in English* **Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol (01745 535297)** |
| Pwnc | **Y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus – Y Diweddaraf** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi crynodeb i'r Aelodau o'r cynnydd y mae pob un o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru wedi'i wneud tuag at gyflawni'r amcanion sydd yn eu cynlluniau llesiant a gyhoeddwyd ym mis Ebrill/Mai 2018.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r pedwar Bwrdd yng Ngogledd Cymru wedi cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol cyntaf er mwyn dangos y cynnydd mewn perthynas â'r cynlluniau llesiant ar gyfer eu hardaloedd. Mae'r Byrddau'n parhau i gwrdd yn rheolaidd ac i weithio drwy is-grwpiau pwnc.

3 Er bod y cynlluniau llesiant wedi nodi 74 o flaenoriaethau ar gyfer Gogledd Cymru, mae'r pedwar Bwrdd wedi gostwng nifer y blaenoriaethau er mwyn canolbwyntio ar feysydd penodol o angen ar gyfer 2018/19.

4 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r pedwar Bwrdd wedi cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol cyn Mehefin 2019 ac maent wedi anfon copïau at Weinidogion Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgor trosolwg a chraffu'r awdurdod lleol perthnasol.

**ARGYMHELLION**

5 Bod yr Aelodau'n nodi'r cynnydd a wnaed gan y pedwar Bwrdd yng Ngogedd Cymru tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant, fel yr amlinellir yn eu hadroddiadau blynyddol.

## CEFNDIR

6 Ym mis Ebrill 2016, fe wnaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus statudol yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru.

7 Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn aelod statudol o bob Bwrdd yn ei ardal, ynghyd â'r awdurdod lleol yn ardal y bwrdd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyfoeth Naturiol Cymru. Dan y Ddeddf, *rhaid* gwahodd rhai sefydliadau eraill i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd a *gellir* gwahodd rhai eraill.

8 Ar hyn o bryd, mae pedwar Bwrdd yng Ngogledd Cymru, sef Wrecsam, Sir y Fflint, Conwy a Sir Ddinbych, a Gwynedd ac Ynys Môn. Ers Mawrth 2016, y Prif Swyddog Tân yw'r sawl sydd wedi'i ddynodi'n gynrychiolydd yr Awdurdod ar y Byrddau.

9 Roedd y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Fyrddau i: asesu cyflwr llesiant yn eu hardaloedd; cyhoeddi eu hasesiadau llesiant cyntaf yn 2017; ac, yn dilyn nifer o gamau ymgysylltu a chymeradwyo, roeddent yn cyhoeddi eu cynlluniau llesiant cyntaf erbyn 3 Mai 2018.

10 Roedd yr asesiadau'n ystyried cryfderau ac asedau ardaloedd lleol, y bobl a'r cymunedau sy'n byw yno, a'r heriau a'r cyfleoedd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus nawr ac yn y dyfodol. Ceisiwyd adborth gan drigolion, busnesau ac ymwelwyr ledled Gogledd Cymru.

11 Drwy ddefnyddio asesiadau lleisant, fe wnaeth y Byrddau osod amcanion lleol wedi'u cynllunio i sicrhau eu bod yn cyfrannu i'r eithaf at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol yn eu hardaloedd. Cyn eu cyhoeddi, roedd rhaid i'r gyfres gyntaf o gynlluniau llesiant lleol gael eu cymeradwyo gan yr aelodau statudol unigol a gan y Byrddau eu hunain.

## SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

12 Nid yw'r Panel Gweithredol na'r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

## GWYBODAETH

13 Cafodd fersiynau drafft terfynol o'r pedwar cynllun llesiant lleol eu cyflwyno i'r Aelodau ym mis Mawrth 2018, a chawsant gymeradwyaeth yr Awdurdod. Ni chafodd unrhyw newidiadau arwyddocaol eu gwneud i'r cynlluniau llesiant cyn eu cyhoeddi. Mae'r cynlluniau terfynol a gyhoeddwyd ar gael ar wefan pob Bwrdd.

14 edd dadansoddiad o gynlluniau llesiant pob Bwrdd yn datgelu cyfanswm o 74 o flaenoriaethau ar gyfer Gogledd Cymru. Cafodd y blaenoriaethau wedi dosbarthu dan 16 o benawdau allweddol, sef Cymuned; Tai; Addysg; Addysg Iechyd; Iechyd; Dinasyddion Cyfrifol; Llesiant; Yr Amgylchedd; Cyfrifoldeb Amgylcheddol; Prosiectau Amgylcheddol Cymunedol; Twristiaeth; Economi; Seilwaith; Sgiliau ar gyfer Gwaith; Presgripsiwn Cymdeithasol; ac Iechyd y Gweithlu.

15 Fe wnaeth pob Bwrdd ddatblygu camau i fynd i'r afael â'r materion cymhleth a nodwyd yn flaenoriaethau yn y cynlluniau. Sefydlwyd gweithgorau i gyflawni'r blaenoriaethau, a chrewyd cynlluniau gwaith gydag amseroedd penodol arnynt, gyda'r cynnydd yn cael ei adrodd yn rheolaidd i bob Bwrdd.

16 Mae rhai o'r amcanion a ddatblygwyd gan y Byrdau yn cyd-fynd ag amcanion gwella a llesiant hirdymor yr Awdurdod ei hun, a phan mae'r rhain wedi cael eu dynodi, dilynir dull integredig i sicrhau eu bod yn cyfrannu i'r eithaf at gyfleoedd i weithio ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid.

17 Mae gwaith partneriaethol wrthi'n cael ei ddatblygu mewn meysydd megis newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth, cydlyniad cymunedol a gwaith ataliol. Mae gwaith yn cael ei wneud i chwilio am ragor o gyfleoedd i weithio ar y cyd er mwyn osgoi dyblygu ymdrech rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus, ac i annog rhannu adnoddau.

18 **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych**
Ar ôl dadansoddi'r adborth o'r ymgynghoriad, fe wnaeth Bwrdd Conwy a Sir Ddinbych ostwng nifer y blaenoriaethau o chwech i dri. Gwnaeth hyn drwy edrych ar y synergeddau rhwng blaenoriaethau, yr effaith y gallai'r Bwrdd ei chael, y goblygiadau hirdymor a lle roedd gwaith eisoes yn cael ei wneud er mwyn osgoi dyblygu. Cafodd y blaenoriaethau isod eu dewis ar sail lle gallai'r Bwrdd ychwanegu'r gwerth mwyaf ar y cyd:

- Pobl – Cefnogi llesiant meddyliol da
- Cymunedol – Cefnogi rhoi grym i gymunedau
- Lle – Cefnogi Gwytnwch Amgylcheddol

Mae crynodeb manwl o'r hyn mae'r Bwrdd wedi'i gyflawni ar gael yn ei adroddiad blynyddol.

19 **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam**
Yn dilyn ei ymynghoriad cyhoeddus, fe wnaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam ddatblygu themâu a oedd yn bwysig i bobl sy'n byw yn sir Wrecsam, felly penderfynodd ganolbwyntio ar gwpl o'r rhain ar y tro, yn hytrach na cheisio gwneud popeth ar unwaith. Cafodd tri bwrdd rhaglen eu sefydlu ynglŷn â'r canlynol:

- Mae plant a phobl ifanc yn cael cychwyn iach mewn bywyd
- Mae pawb yn cael cyfle i ddysgu a datblygu drwy gydol eu hoes
- Grŵp Strategol Ardal y Dwyrain i hybu a gweithredu Cymru Iachach ledled Gogledd-ddwyrain Cymru

Mae crynodeb manwl o'r hyn mae'r Bwrdd wedi'i gyflawni ar gael yn ei adroddiad blynyddol.

20 **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint**
Ar gyfer 2018/19, fe wnaeth y Bwrdd osod pum blaenoriaeth a nifer o flaenoriaethau yn ystod y flwyddyn, fel y nodir yn y Cynllun Llesiant ar gyfer Sir y Fflint:

- Diogelwch Cymunedol
- Economi a Sgiliau
- Yr Amgylchedd
- Byw'n Iach ac Annibynnol
- Cymunedau Cydnerth

Mae crynodeb manwl o'r hyn mae'r Bwrdd wedi'i gyflawni ar gael yn ei adroddiad blynyddol.

21 **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn**
Roedd y cynllun llesiant yn cadarnhau'r ddau amcan a'r chwe maes blaenoriaeth lle roedd y Bwrdd yn cytuno i weithio gyda'i gilydd i sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn:

- Cymunedau sy'n ffynnu ac sy'n llewyrchus yn y tymor hir
    1. Y Gymraeg
    2. Cartrefi i bobl leol
    3. Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau
    4. Effaith yr newid yn yr hinsawdd ar lesiant cymunedau
- Trigolion iach ac annibynnol sydd â bywyd o ansawdd da
    1. Iechyd a gofal oedolion
    2. Lles a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc

Mae crynodeb manwl o'r hyn mae'r Bwrdd wedi'i gyflawni ar gael yn ei adroddiad blynyddol.

22 Mae copi o bob un o'r adroddiadau cynnydd blynyddol wedi cael ei anfon at y pwyllgor trosolwg a chraffu yn yr awdurdod lleol perthnasol, yn ogystal ag at Weinidogion Cymru, Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae rhai o'r amcanion a ddatblygwyd gan y Byrddau yn cyd-fynd ag amcanion gwella a llesiant hirdymor yr Awdurdod mewn meysydd fel y newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth, cydlyniant cymunedol a gwaith ataliol. |
| Cyllideb | Nid oes goblygiadau'n hysbys ar hyn o bryd, ond mae'n bosibl y gofynnir am gyfraniadau ariannol ar gyfer prosiectau cydweithredol drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. |
| Cyfreithiol | Dim goblygiadau hysbys. |
| Staffio | Dim effaith hysbys ar lefelau staffio, ond mae'n bosibl y bydd y gwaith o gynllunio a chyflawni'r amcanion llesiant yn golygu defnyddio adnoddau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae amcanion y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn ceisio gwella llesiant pobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru. Mae nifer o amcanion yn gyfrannu at y nod o 'Gymru fwy cyfartal'. |
| Risgiau | Fel Aelod statudol o'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n cyflawni pedwar cynllun llesiant sy'n cynnwys 74 o flaenoriaethau, gallai'r Gwasanaeth Tân ac Achub gael trafferth cynnal lefel briodol o gyfranogiad gweithredol. |

Tudalen wag - yn fwriadol

*This document is available in English*

**Eitem ar yr Agenda 14**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)** |
| Swyddog Cyswllt | **Stephen Roberts, Pennaeth Cyfleusterau 01745 588430** |
| Pwnc | **Bioamrywiaeth a Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r modd y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cydymffurfio ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am gynllunio yn y dyfodol ac am ddulliau adrodd yr Awdurdod ynglŷn â gwella bioamrywiaeth yn ei ystad.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Rhaid i'r Awdurdod gynllunio ar gyfer, ac adrodd ynghylch, ei gamau i wella bioamrywiaeth yn ei ystad. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Adroddiad drafft ar Fioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau 2019 i gael cymeradwyaeth i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod cyn diwedd mis Rhagfyr, a hynny yn unol ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

## ARGYMHELLION

3 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo cynnwys yr Adroddiad Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau 2019, sydd wedi'i atodi, er mwyn ei ymgorffori mewn cyhoeddiad â darluniau ar wefan yr Awdurdod cyn diwedd mis Rhagfyr 2019.

## SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

## CEFNDIR

5 Mae bioamrywiaeth yn ymwneud ag amrywiaeth y bywyd sydd ar y ddaear. Mae'r economi ac iechyd a llesiant pobl yn dibynnu ar ecosystemau iach a chadarn ar gyfer bwyd, dŵr ac aer glan, deunyddiau crai, ynni ac amddiffyniad rhag peryglon megis llifogydd a'r newid yn yr hinsawdd.

6 Roedd Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried cadwraeth bioamrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau'n briodol.

7 Yn 2015, fe wnaeth Llywodraeth Cymru lansio Cynllun Adfer Natur i geisio gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae'r Cynllun yn nodi sut byddai Cymru yn cyflawni ymrwymiadau Strategaeth Bioamrywiaeth yr Undeb Ewropeaidd a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Biolegol drwy gamau byrdymor hyd at 2020 ac fel ymrwymiadau hirdymor ar ôl 2020.

8 Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu saith nod llesiant ar gyfer Cymru, a rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio i'w cyflawni. Mae un o'r nodau hynny'n ymwneud â 'Chymru gydnerth', i wneud Cymru'n 'genedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid'.

9 Yn 2016, daeth awdurdodau lleol yng Nghymru yn ddarostyngedig i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a oedd yn cyflwyno dyletswydd yn ymwneud â bioamrywiaeth gwell a chadernid ecosystemau ('dyletswydd adran 6').

10 Mae dyletswydd adran 6 yn mynnu bod awdurdodau cyhoeddus – gan gynnwys awdurdodau tân ac achub – yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y mae hynny'n gyson â chyflawni eu swyddogaethau'n briodol, a'u bod drwy wneud hynny yn hybu cadernid ecosystemau.

11 Dylai awdurdodau cyhoeddus wreiddio'r dasg o ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu holl weithgareddau, gan gynnwys cynllunio busnes, polisïau, rhaglenni a phrosiectau. Yn benodol, rhaid i bob awdurdod cyhoeddus gyhoeddi cynllun sy'n nodi sut mae'n cynnig cydymffurfio â dyletswydd adran 6, ac adroddiad yn disgrifio beth mae eisoes wedi'i wneud ar gyfer hyn. Rhaid i'r adroddiad ôl-weithredol cyntaf o'r fath gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2019, a bob tair blynedd wedi hynny.

**GWYBODAETH**

12 Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gweithio yn ôl cynllun gweithredu ar gyfer rheoli safleoedd yr Awdurdod mewn ffyrdd sy'n gwella bioamrywiaeth ei ystad drwy fynd i'r afael â'r chwe amcan sydd yng Nghynllun Adfer Natur Cymru. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Adroddiad drafft ar Fioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau 2019 (gweler Atodiad 1).

13 Hefyd, mae amcanion drafft yr Awdurdod ar gyfer 2020/21 yn cynnwys bwriad i ddatblygu a mabwysiadu Strategaeth Amgylcheddol. Felly, bydd yn cynnwys bwriad i ddatblygu a mabwysiadu Strategaeth Amgylcheddol. Byddai gwaith cynllunio camau bioamrywiaeth ar gyfer y dyfodol yn dod o fewn cylch gorchwyl y strategaeth ehangach hon.

14 Mae testun drafft adroddiad bioamrywiaeth cyntaf yr Awdurdod dan adran 6 ar gael yn Atodiad 1. Gan ddibynnu ar gael cymeradwyaeth yr Awdurdod, caiff hwn ei ymgorffori mewn cyhoeddiad â darluniau i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn y dyddiad statudol, sef diwedd mis Rhagfyr 2019.

15 Er mai dim ond bob tair blynedd y mae'n rhaid adrodd mewn perthynas â dyletswydd adran 6 dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gellir adrodd yn amlach yn Asesiadau Perfformiad Blynyddol yr Awdurdod.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Goblygiad uniongyrchol o gytuno ar y camau tuag at gyflawni un o amcanion gwella a llesiant hirdymor yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae perthynas glir rhwng cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer 2020/21 a lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael. Rhaid i gyllideb 2020/21 gael ei chadarnhau erbyn canol Chwefror 2020. |
| Cyfreithiol | Mae'n rhoi cymorth i gydymffurfio â deddfwriaeth ym maes cynllunio gwelliannau, llesiant a'r amgylchedd. |
| Staffio | Dim effaith hysbys ar lefelau staffio. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd effeithiau'r camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael eu hasesu ar adeg briodol yn eu datblygiad. |
| Risgiau | Mae'n lleihau'r risgiau o beidio â chydymffurfio â'r gyfraith ac o fethu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |

Atodiad 1

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**Adroddiad Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau 2019**

## Rhagarweiniad

Mae gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gontract gyda'r Adran Rheoli Cyfleusterau yn Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau bod prosiectau bioamrywiaeth, a'r contract ar gyfer cynnal a chadw tir ar ei safleoedd, yn cael eu cyflawni.

Mae'r contract cyfredol ar gyfer cynnal a chadw tir yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020. Wrth ddatblygu'r fanyleb ar gyfer y contract newydd, rhoddwyd ystyriaeth i gamau i wella bioamrywiaeth.

Rhwng mis Ebrill a Thachwedd bob blwyddyn, mae'r contract cynnal a chadw tir yn cynnwys y drefn ganlynol:

- torri pob ardal laswelltog bob pythefnos;
- tocio llwyni, gwrychoedd a choed fel y bo'r angen;
- rhoi chwynladdwr i reoli chwyn ar ardaloedd palmantog, cyrbiau a gwaelod adeiladau;
- mae arwynebau solet (meysydd parcio, llwybrau ac ati) yn cael eu clirio o sbwriel, ac mae'r holl wastraff (glaswellt, dail, llwyni marw ac ati) yn cael ei symud o'r safle;
- rheoli rhywogaethau estron goresgynnol – mae clymog Japan dan reolaeth lem ar dri safle.

Mae llawer o bosibilrwydd o fynd i'r afael ag ystyriaethau bioamrywiaeth yn yr ystad, gan fod 83% o'r safleoedd yn cynnwys ardaloedd o dirlunio meddal (ardaloedd glaswelltog) ac mae 46% o'r safleoedd hynny yn cynnwys llwyni, gwrychoedd neu goed. Dim ond 17% o'r safleoedd sydd heb lystyfiant o gwbl.

Gellir dosbarthu ystad yr Awdurdod yn 3 math o safle:

- Grŵp 1 – pan fo'r tir yn cynnwys arwyneb solet, ardaloedd glaswelltog a llwyni, gwrychoedd a/neu goed;
- Grŵp 2 – pan fo'r tir yn cynnwys arwyneb solet ac ardaloedd glaswelltog;
- Grŵp 3 – pan fo'r tir yn cynnwys arwyneb solet yn unig.

## Prosiectau gwella bioamrywiaeth

Hyd yma, mae tri phrosiect gwella bioamrywiaeth wedi cael eu cynnal, gyda phob prosiect yn seiliedig ar 'gynllun creu cynefin' i geisio cynyddu gwerth bioamrywiaethol y safle, darparu cysylltedd o fewn a rhwng ecosystemau, a sicrhau bod llai o ddarnio'n digwydd.

Prosiect 1: Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy.

Mae prosiect bioamrywiaeth yn bodoli yno ers 2007, a hynny ar ffurf gardd glöynnod byw, gwrych a man amwynder gwyrdd ar gyfer y staff. Ar y cyd â Grŵp Cadwraeth Glöynnod Byd Gogledd Cymru, mae ardal laswelltog y tu ôl i'r adeilad wedi cael ei throi'n ardd löynnod byw a phlannwyd gwrych 'coridor bywyd gwyllt' sy'n 128m ar hyd llinell y ffens rhwng Pencadlys y Gwasanaeth a'r Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd sydd gerllaw, a hynny er mwyn cysylltu'r ardd â'r cynefinoedd y hwnt i ffiniau'r safle. Gan fod y Parc Busnes yn gartref i'r fadfall ddŵr gribog, daeth ecolegydd draw i gynghori yn ystod y gwaith, rhag ofn.

Prosiect 2: Gorsaf Dân a Heddlu Nefyn, Parc Dwyfor, Nefyn.

Mae Gorsaf Dân a Heddlu Nefyn yn safle adeilad newydd (BREEAM rhagorol). Mae prosiect bioamrywiaeth yn bodoli yno ers 2014, pryd cafodd y safle ei gwblhau.

Cafodd yr orsaf ei hadeiladu ar dir a oedd yn arfer bod yn gaeau glaswelltir garw a oedd wedi bod dan reolaeth amaethyddol ers cryn amser. Yn yr arolwg Cynefinoedd Cyfnod 1, cyn datblygu'r caeau, cawsant eu categoreiddio'n laswelltir wedi'i led-wella, prin ei rywogaethau.

Mae dyluniad a gweithrediad y cynllun rheoli bioamrywiaeth ar gyfer y safle yn ymgorffori ardaloedd o laswelltir blodau gwyllt (ar gyfer pryfed peillio); blychau ystlumod, pryfed ac adar; a noddfeydd torheulo a gaeafgysgu i ymlusgiaid. Mae'r planhigion ar y safle yn cynnwys rhywogaethau planhigion, prysg a choed brodorol.

Prosiect 3: Gorsaf Dân a Heddlu Tywyn, Parc Menter Pendre, Tywyn.

Mae Gorsaf Dân a Heddlu Tywyn yn safle adeilad newydd (BREEAM rhagorol). Mae prosiect bioamrywiaeth yn bodoli yno ers 2015, pryd cafodd y safle ei gwblhau.

Cafodd yr orsaf ei hadeiladu ar dir a gafodd ei gategoreiddio yn yr arolwg Cynefinoedd Cyfnod yn ardal o laswelltiroedd wedi'u lled-wella, prin eu rhywogaethau a glaswelltiroedd amwynder yn cynnwys gwrych gyda choed ar y ffin deheuol nad oedd yn cysylltu â'r coridorau bywyd gwyllt ar hyd y rheilffordd neu ffiniau'r caeau yn y tirwedd ehangach.

Mae dyluniad a gweithrediad y cynllun rheoli bioamrywiaeth ar gyfer y safle yn cynnwys poncen ar lethr bach, wedi'i greu drwy glirio haen uchaf y pridd ar adeg gwaith adeiladu ar y safle er mwyn creu arwyneb ychwanegol ar gyfer plannu. Mae perimedr terfyn y safle wedi'i blannu â rhywogaethau planhigion, prysg a choed brodorol, ac mae'n cynnwys ardaloedd o laswelltir blodau gwyllt ac ardal pyllau gwlyptir. Mae'r ardaloedd sydd wedi'u plannu yn cysylltu â gwrychoedd a choed a oedd yno eisoes. Gosodwyd blychau adar ar yr adeilad ac yn y coed.

**Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau**

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn disgrifio cyfraniad yr Awdurdod at amcanion Cynllun Adfer Natur Cymru, mewn perthynas â rheoli tir a chynnal a chadw a gwella bioamrywiaeth ar safleoedd yr Awdurdod.

**NRAP Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth ymhob rhan o'r gwaith o wneud penderfyniadau.**

I ddechrau, fe wnaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ymrwymo i ymdrin â bioamrywiaeth ar ei ystad drwy'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (SDAP) sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2020. Mae'r Cynllun yn cael ei weithredu a'i reoli drwy gontract gyda'r Adran Rheoli Cyfleusterau yn Heddlu Gogledd Cymru. Mae data, gwybodaeth ac adroddiadau am y meysydd pynciol dan y Cynllun SDAP yn cael eu darparu i'r Awdurdod Tân ac Achub ac uwch reolwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub fel y bo'r angen neu fel y gwneir cais amdanynt.

Mae codi ymwybyddiaeth am faterion bioamrywiaeth wedi bod ar safleoedd prosiectau yn bennaf. Er enghraifft, mae prosiect bioamrywiaeth y Pencadlys Tân ac Achub wedi darparu gwybodaeth i'r staff am y prosiect a'r rhesymau pam roedd yn cael ei wneud. Ymgysylltwyd yn dda â'r cynllun, mae'r staff yn tynnu ffotograffau o rywogaethau (glöynnod byw a phryfed eraill) ac maent yn darparu adborth am unrhyw broblemau i'r Adran Rheoli Cyfleusterau.

**NRAP Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn a gwella'r dulliau o'u rheoli.**

Nid oes gan y Gwasanaeth unrhyw safleoedd gwarchodedig yn ei ystad. Ond mae'r Pencadlys Tân ac Achub ar Barc Busnes Llanelwy, sy'n gartrefi i'r fadfall ddŵr gribog, felly bydd unrhyw waith sy'n tarfu ar dir yn rhoi ystyriaeth i ofynion y gyfraith mewn perthynas â'r madfallod dŵr.

**NRAP Amcan 3: Cynyddu cadernid ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio, a chreu cynefinoedd.**

Bydd yr amcan hwn yn cael ei gyflawni drwy weithredu'r contract newydd ar gyfer Cynnal Tir a Gwella Bioamrywiaeth, a fydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2020. Mae manyleb y contract newydd wrthi'n cael ei ddatblygu. Bydd pob safle'n cael ei asesu o ran ei ofynion cynnal a chadw tir a'i botensial ar gyfer creu cynefinoedd, a bydd trefn benodol yn cael ei lunio ar gyfer pob safle, gan gynnwys cynlluniau o'r safleoedd, a mesuriadau o ardaloedd â llystyfiant. Bydd gofynion penodol ar gyfer safleoedd, ond dyma'r brif bethau a fydd yn cael eu sefydlu o 1 Ebrill 2020 ymlaen:

***Ardaloedd Glaswelltog:*** Oni bai fod angen cynnal a cadw'r ardal laswelltog fel nodwedd ffurfiol neu os yw'n rhy fach, bydd y drefn dorri yn newid o bob pythefnos rhwng Ebrill ac Awst i dorri unwaith yn y gwanwyn ac unwaith yn yr hydref; bydd hyn yn caniatáu i'r glaswellt dyfu rhwng Ebrill ac Awst bob

blwyddyn er mwyn cynyddu'r cynefin sydd ar gael i bryfed peillio a rhywogaethau eraill.

Pan fo ardaloedd glaswelltog yn cael eu gadael i dyfu rhwng Ebrill ac Awst, bydd stribyn ar hyd ymyl y glaswellt wrth arwyneb solet yn cael ei dorri'n rheolaidd, er mwyn nodi'r ardal bioamrywiaeth, dangos bod yr ardal yn cael ei rheoli, ac er mwyn gallu ystyried iechyd a diogelwch ar y gyfer y staff sy'n defnyddio'r safle. Caiff asesiad ei wneud o'r safle ym mis Gorffennaf 2020 er mwyn penderfynu pa mor lwyddiannus fu'r drefn dyfu ym Mlwyddyn 1 a pha addasiadau fydd eu hangen ar gyfer Blwyddyn 2. O ran ardaloedd o laswellt sy'n rhy fach i'w gadael i dyfu, caiff y rhain eu hasesu o ran cynefinoedd eraill 'sy'n gyfeillgar i bryfed peillio', megis gwelyau blodau neu ddysglau blodau.

***Llwyni a Choed:*** Mae'r holl goed yn cael eu cofnodi mewn rhestr, sy'n nodi'r lleoliad, unrhyw orchmynion gwarchod coed, rhywogaeth, amcangyfrif o'r oedran, cyflwr (er mwyn penderfynu ynghylch iechyd y goeden ac er mwyn cynnal asesiadau o'r risg i'r goeden ei hun o glefydau fel clefyd coed ynn ac i'r eiddo neu i bobl oherwydd e.e. canghennau marw a allai syrthio).

Pan fo angen symud coed, bydd rhywogaethau brodorol addas yn cael eu rhoi yn eu lle. Pan fo coed wedi cael eu symud yn y gorffennol a bylchau'n bodoli yn y cynefin, bydd y bylchau'n cael eu cau drwy blannu coed newydd os yw hyn yn bosibl. Bydd gwrychoedd a llwyni'n cael eu tocio ar yr adeg briodol o'r blwyddyn, a rhoddir ystyriaeth i rywogaethau a allai fod yn eu defnyddio, megis adar yn nythu.

Pan fo angen adnewyddu neu atgyweirio llwyni neu wrychoedd, defnyddir rhywogaethau sy'n blodeuo (megis y ddraenen wen) fel porthiant i bryfed peillio. Gosodir pentyrrau o foncyffion, a bylchau ystlumod, adar a pryfed ar safleoedd lle mae hynny'n bosibl.

***Codi Ymwybyddiaeth o Fioamrywiaeth:*** Bydd staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael gwybod am y newid yn y drefn cynnal a chadw tir a'r rhesymau dros hynny. Gosodir byrddau gwybodaeth cyhoeddus ar safleoedd lle mae'r blaen yn destun prosiect.

**NRAP Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd.**

Mae clymog Japan yn cael ei reoli ar dri safle, ac mae ei statws yn cael ei fonitro'n barhaus .

Yng ngwanwyn 2020, gwneir asesiad o'r risg o glefyd coed ynn i goed ynn ar safleoedd yr Awdurdod pan fydd y coed yn deilio eto.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth yn ei restr o goed, bydd y Gwasanaeth yn cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cyfrifo beth yw gwerth y coed i ddal a storio carbon. Penderfynir beth yw gwerth y dadgarboneiddio i ôl

troed carbon y Gwasanaeth o ganlyniad i ddal a storio carbon gan goed yn yr ystad.

Os bydd man gwyrdd yn cael ei greu ar gyfer staff, ymwelwyr neu grwpiau cymunedol, bydd y seddi'n dod o ffynonellau cynaliadwy a chymdeithasol.

Defnyddio plaladdwyr a chwynladdwyr; mae'r Gwasanaeth eisoes yn dweud wrth gontractwyr i sicrhau eu bod yn defnyddio'r sylweddau hyn yn gymesur, nad ydynt yn cael eu rhoi ar ddail gwlyb neu pryd mae disgwyl glaw, bod sbwriel yn cael ei symud cyn chwistrellu a bod eu cyfarpar yn cynnwys giard i atal sylweddau rhag chwythu.

**NRAP Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n dulliau monitro:**

Crëir rhestr bioamrywiaeth o ystad yr Awdurdod, bydd yn cynnwys cynlluniau o safleoedd, mesuriadau o ardaloedd glaswelltog a chynefinoedd ar y safleoedd hynny.

Blwyddyn ariannol 2019/20 fydd y flwyddyn sylfaen ar gyfer y rhestr, sef pryd bydd safleoedd wedi dilyn y drefn bresennol o gynnal a chadw tir.

Bydd y Rhestr yn cael ei diweddaru bob blwyddyn, er mwyn adlewyrchu prosiectau sy'n cael eu cynnal ar y safle a'r gwaith pellach fydd ei angen. Bydd pob Rhestr, data a gwybodaeth ar gael i'r Cofnod (sef Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol Gogledd Cymru), Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, Swyddogion Bioamrywiaeth lleol, sefydliadau sy'n bartneriaid i ni yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ac unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb.

**NRAP Amcan 6: Sefydlu fframwaith llywodraethu a chefnogi ar gyfer cyflawni:**

Mae'r gwaith o gyflawni'r camau bioamrywiaeth o ddydd i ddydd ar safleoedd yr Awdurdod yn cael ei weinyddu drwy'r Adran Amgylcheddol a Chadwraeth Ynni yn yr Adran Rheoli Cyfleusterau yn Heddlu Gogledd Cymru.

Bydd y Gwasanaeth yn ceisio cael cymorth gan aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau partneriaethol a grwpiau natur lleol ar gyfer y gwaith o ganfod rhywogaethau ar safleoedd. Er enghraifft, rhoddir ystyriaeth i gynnal BioBlitz ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Natur, drwy agor tir yr orsaf am ddiwrnod er mwyn i aelodau o'r cyhoedd ac arbenigwyr ecolegol ddod i helpu i asesu a chofnodi rhywogaethau a welir ar y safle; gan roi'r canlyniadau yng ngwasanaeth Cofnod.